# Grŵp Monitro barcud Monitoring Group

Cymraeg

Tenant - Cyhoeddus

## Grŵp Monitro Barcud.

## Cynnwys.


1. Diben y canllaw hwn.
2. Beth neu bwy yw Grŵp Monitro Barcud?
3. Sut y mae'r Grŵp yn wahanol i Grwpiau Tenantiaid eraill?
4. Pam y caiff ei alw'n grŵp monitro?
5. Sut y mae'r Grŵp o fudd i denantiaid Barcud?
6. Sut y mae'r Grŵp o fudd i Barcud?
7. Beth yw ethos gwaith sylfaenol y Grŵp?
8. Beth yw gweithdrefnau gweithredol y Grŵp?
9. Sut y mae'r Grŵp yn rheoli ei arian?
10. Sut y mae'r Grŵp yn rheoli trefniadau recriwtio, disgyblu a diswyddo?
11. Beth yw gweithgareddau craidd y Grŵp?
12. Pa gyfyngiadau sydd ar y Grŵp?
13. Beth yw Fforymau Cyswllt y Tenantiaid Barcud a Chynhadledd i Denantiaid Barcud?
14. Beth yw cyfarfodydd strategol a gweithredol Panel Cyswllt y Tenantiaid?
15. Beth yw dyletswyddau swyddogion etholedig y Grŵp?


## 1. Diben y canllaw hwn.

Mae swyddogion etholedig Grŵp Monitro Barcud wedi creu'r canllaw hwn er mwyn taflu goleuni ar weithrediadau'r Grŵp a darparu trosolwg ohonynt. Gallai'r canllaw fod o ddiddordeb i denantiaid newydd a phresennol Barcud, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eraill, Grwpiau Tenantiaid allanol, a sefydliadau eraill sydd â diddordeb mewn gwella'r graddau y caiff tenantiaid eu cynnwys yn eu gwaith.

Nid yw'r canllaw hwn yn cynnwys *Cylch Gwaith, Cod Ymddygiad* na *Chytundeb Cyfrinachedd* Grŵp Monitro Barcud. Gellir darparu'r dogfennau hynny os gofynnir amdanynt naill ai drwy gysylltu â Sue Thomas (Uwch Swyddog Cynnwys Tenantiaid) neu Alisa Cakebread (Swyddog Cynnwys Tenantiaid) drwy post@barcud.cymru

## 2. Beth neu bwy yw Grŵp Monitro Barcud?

Grŵp Monitro Barcud yw'r grŵp tenantiaid ar gyfer tenantiaid Barcud Cyf. Yn wahanol i grwpiau tenantiaid eraill yng Nghymru, caiff y Grŵp ei reoli a'i hwyluso gan denantiaid ac mae ganddo swydd ar gyfer un o lesddeiliaid Barcud. Mae gan y Grŵp ei *Gylch Gwaith*, ei *God Ymddygiad* a'i *Gytundeb Cyfrinachedd* ei hun. Mae hefyd yn cynnal tanysgrifiad i'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ac mae ganddo gyfrif banc sy'n rhan o gytundeb lefel gwasanaeth ac ariannu syml â Barcud.

## 3. Sut y mae'r Grŵp yn wahanol i Grwpiau Tenantiaid eraill?

Yn bennaf, oherwydd bod gweithgareddau a gweithrediadau mewnol y Grŵp yn cael eu cyflawni gan aelodau'r Grŵp yn hytrach nag aelodau o staff. Mae aelodau'r Grŵp yn rhoi o'u hamser yn wirfoddol ac yn dewis i ba raddau y maent am gymryd rhan. Mae Barcud yn cydnabod bod y Grŵp yn Grŵp Tenantiaid annibynnol ac mae wedi'i gynnwys yn nogfen lywodraethu Barcud, felly dim ond tenantiaid a chyfranddalwyr Barcud all ddiddymu'r Grwp.

Cydnabyddir bod y Grŵp yn aelod gwerthfawr o sefydliad Barcud, a chaiff ei gynnwys yng ngweithrediadau Barcud ar bob lefel. Mae'r Grŵp yn gweithio gyda Bwrdd Grŵp Barcud, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr, y Rheolwyr Gweithredol ac aelodau eraill o staff Barcud yn ôl y gofyn. Nid yw Barcud yn cyfarwyddo prosesau gwneud penderfyniadau, argymhellion na gweithrediadau mewnol y Grŵp.

## 4. Pam y caiff ei alw'n grŵp monitro?

Cafodd y Grŵp ei sefydlu gyntaf ym mis Ionawr 2010 yn dilyn y broses o drosglwyddo'r stoc dai o Gyngor Sir Ceredigion i Tai Ceredigion. Cafodd y Grŵp ei alw'n Grŵp Monitro Tai Ceredigion i ddechrau. Diben cychwynnol y Grŵp oedd monitro'r gwaith o wireddu'r 174 o addewidion a oedd yn y *Ddogfen Gynnig ar gyfer Trosglwyddo Stoc*. Cafodd y tenantiaid a oedd yn ymwneud â phanel llywio'r broses o drosglwyddo stoc gais gan Brif Weithredwr cyntaf Tai Ceredigion i *fonitro* a goruchwylio'r Gymdeithas newydd a'i chynorthwyo i ddatblygu. Gan mai'r tenantiaid oedd yn cael ac yn gweld y gwasanaethau o ddydd i ddydd, roedd yna gydnabyddiaeth mai nhw oedd y bobl fwyaf addas i fonitro a chyd-lunio'r gwasanaethau a gâi tenantiaid, a'r bobl fwyaf addas i ddylanwadu ar y gwasanaethau hynny, oherwydd eu profiadau go iawn ohonynt. Yn rhan o'r gwaith hwnnw, bu'r tenantiaid hefyd yn helpu i bennu safonau gwasanaeth y cwmni ac yn helpu i sicrhau bod polisïau'n canolbwyntio ar y tenantiaid.

Ym mis Tachwedd 2020, cafodd Tai Ceredigion a Tai Canolbarth Cymru eu huno i greu Barcud Cyf. Yn rhan o'r broses uno, cytunodd Grŵp Monitro Tai Ceredigion a Fforwm Tenantiaid a Phreswylwyr Tai Canolbarth Cymru ar y cyd i ffurfio un grŵp tenantiaid ac i fabwysiadu arferion Grŵp Monitro Tai Ceredigion gynt. Cytunwyd hefyd y byddai'r grŵp tenantiaid yn cael ei alw'n Grŵp Monitro Barcud ac y byddai'n cael logo newydd a fyddai'n adlewyrchu'r ardal weithredol newydd.

## 5. Sut y mae'r Grŵp o fudd i denantiaid Barcud?

Fel y nodwyd yn flaenorol, tenantiaid yw aelodau'r Grŵp, felly maent yn cael yr un gwasanaethau â thenantiaid eraill Barcud; mae hynny'n golygu eu bod yn cael yr un profiadau o wasanaethau Barcud ac o'r modd y cânt eu darparu. Mae'n bwysig nodi nad yw aelodau'r Grŵp yn cael unrhyw ffafriaeth gan Barcud. Mae'r aelodau yn byw mewn trefi a phentrefi ar hyd a lled ardal weithredol Barcud, a thrwy ymwneud â'u cymdogion a'u ffrindiau yn eu cymunedau maent yn gallu dod i ddeall mwy am y modd y caiff gwasanaethau Barcud eu darparu.

Amrywiaeth. Mae'r Grŵp yn ymdrechu'n barhaus i adlewyrchu demograffeg tenantiaid Barcud, gan gynnwys grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, fel y diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae profiadau go iawn yr aelodau, a'u cefndiroedd personol a phroffesiynol, yn adnodd

amhrisiadwy i Barcud a’i denantiaid, oherwydd mae’r ffaith ein bod yn cael ein cynnwys yn sicrhau bod polisïau, gwasanaethau, y modd y caiff gwasanaethau eu darparu a’r diwylliant yn canolbwyntio’n wirioneddol ar y tenantiaid. Yn gryno, mae’r Grŵp yn sicrhau nid yn unig bod barn y tenantiaid yn cael ei chlywed ond hefyd ei bod yn dylanwadu ar holl weithrediadau Barcud.

## 6. Sut y mae’r Grŵp o fudd i Barcud?

Os ydych yn uwch-weithiwr proffesiynol ym maes tai neu’n aelod o fwrdd Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, byddwch yn gyfarwydd â *Safonau Rheoleiddio* Llywodraeth Cymru ac felly’n gallu gweld yn glir o’r ddogfen hon sut y mae’r Grŵp yn cynorthwyo Barcud i fodloni’r safonau hynny.

Mae’r graddau y caiff y Grŵp ei gynnwys ar draws gweithrediadau Barcud yn sicrhau bod Barcud yn cael safbwynt gwybodus tenantiaid yn ystod digwyddiadau cynllunio busnes, adolygiadau, gwerthusiadau o’i *Amcanion Strategol*, a chyfarfodydd hunanasesu sy’n ymwneud â’r *Safonau Rheoleiddio*. Yn ystod y cyfarfodydd hunanasesu hynny, mae’r Grŵp yn cyfrannu’n llawn wrth drafod yr holl safonau rheoleiddio ac nid yn unig wrth drafod y rhai sy’n ymwneud yn benodol â chynnwys tenantiaid.

Mae’r Grŵp yn sicrhau bod Barcud a’i Reoleiddiwr Tai yn cael lefel ychwanegol o oruchwyliaeth a gwaith gwirio annibynnol. Mae’r Rheoleiddiwr Tai yn ymwneud â’r Grŵp yn uniongyrchol, ac ar ôl cael gwahoddiad gan y Grŵp mae wedi mynychu cyfarfodydd y Grŵp. Cafodd perthynas waith y Grŵp â Rheoleiddiwr Tai y Gymdeithas ei sefydlu gyntaf yn 2010.

Ym mis Rhagfyr 2021, cafodd y Grŵp a Barcud wobr Cydnabyddiaeth Arbennig gan TPAS Cymru am Weithio fel Un. O ganlyniad, mae TPAS Cymru wedi rhoi cyfleoedd i’r Grŵp a Phrif Weithredwr Barcud rannu ein harferion â thenantiaid a staff o bob cwr o Gymru. Mae’r Grŵp yn cynorthwyo Barcud i gyflawni ei nodau, sef bod yn arweinydd i’r sector mewn sawl agwedd ar ei weithrediadau, ac mae’r Grŵp yn un o brif adnoddau hyrwyddo Barcud.

## 7. Beth yw ethos gwaith sylfaenol y Grŵp?

Ymhlith pethau eraill, mae arferion gwaith sylfaenol y Grŵp yn cynnwys cyd-lunio; cyd-gynhyrchu; gwaith tîm; sicrhau bod pawb yn parchu ei gilydd; hybu arfer da a’i hyrwyddo gyda balchder a rennir; a hybu buddiannau’r tenantiaid a buddiannau Barcud. Mae enw da Barcud yn agos iawn at galon y Grŵp, ac mae’r Grŵp yn mynegi ei bryderon pan fydd o’r farn y gallai’r enw da hwnnw gael ei bardduo.

Ym marn wybodus y Grŵp, mae dull Barcud o gynnwys tenantiaid yn unigryw yng Nghymru, ynghyd â’i ddiwylliant amlwg sy’n rhoi pwys ar fod yn landlord sy’n canolbwyntio ar ei denantiaid. Mae Barcud yn cydnabod ei fod yn bodoli er mwyn gwasanaethu ei denantiaid, a bod angen i’w denantiaid ddylanwadu ar y gwasanaethau a ddarperir ganddo a monitro’r gwasanaethau hynny. Mae diwylliant Barcud a’r gwaith o gynnwys tenantiaid wedi bod yn digwydd ac wedi’u datblygu ymhellach ers i Tai Ceredigion gael ei greu ym mis Tachwedd 2009. Mae’r arferion a’r egwyddorion hynny’n dal yn un o *Amcanion Strategol* craidd Barcud. Mae’r diwylliant hwn hefyd yn un o ofynion Bwrdd Grŵp Barcud.

Fel sy'n wir am fathau eraill o gymunedau, mae gan denantiaid amrywiaeth eang o brofiadau personol a phroffesiynol a phrofiadau go iawn, a gallant fod yn gaffaeliad amhrisiadwy i unrhyw sefydliad sy'n ceisio gwella ei wasanaethau. Wrth ddatblygu grwpiau tenantiaid, neu gydweithio â thenantiaid, rhaid bod y dull o weithredu'n ddull lle mae pawb yn parchu ei gilydd, lle ceir anogaeth, lle mae grymuso'n digwydd, lle caiff hyfforddiant ei ddarparu pan ofynnir amdano, a lle caiff setiau sgiliau personol ac ar y cyd eu cydnabod. At hynny, dylai grwpiau tenantiaid gael y rhyddid i weithio'n annibynnol. Mae amgylchedd iach a chynhyrchiol yn amgylchedd lle caiff pobl eu galluogi.

## 8. Beth yw gweithdrefnau gweithredol y Grŵp?

Cafodd dogfennau llywodraethu'r Grŵp eu creu i ddechrau gan Grŵp Monitro Tai Ceredigion mewn partneriaeth ag Open Communities (sefydliad annibynnol allanol yn 2010), ac mae'r aelodau yn adolygu'r dogfennau bob blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'w diben. Mae'r dogfennau yn egluro prosesau a gweithdrefnau mewnol y Grŵp ac mae'n ofynnol i bob aelod lofnodi copi ohonynt.

Mae'r Grŵp yn cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol bob blwyddyn lle mae'n ethol y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd. Mae'r Grŵp yn cwrdd ar ddydd Gwener olaf y mis, ac eithrio ym mis Awst. Mae cofnodion yn cael eu cadw o'r cyfarfodydd hynny ac mae'r aelodau yn rhoi adroddiadau am y gweithgareddau y maent wedi'u mynychu naill ai gyda'r Gymdeithas neu'n allanol. Mae'r cofnodion hynny'n gyfrinachol ac ni chânt eu rhannu â'r Gymdeithas. Yn y cyfarfodydd dan sylw, gall yr aelodau drafod eu profiadau, eu harsylwadau, eu pryderon a'u hargymhellion yn rhydd. Bydd swyddogion y Grŵp yn mynd ag unrhyw wybodaeth berthnasol at Dîm Arwain neu Dîm Rheolwyr Gweithredol Barcud ar ail ddydd Mawrth y mis, bob yn ail fis.

Ar wahân i'r Uwch Swyddog Cynnwys Tenantiaid, nid oes unrhyw aelodau o staff Barcud ac nid oes unrhyw aelodau o Fwrdd Grŵp Barcud yn cael mynychu cyfarfodydd misol y Grŵp heb ganiatâd yr aelodau. Mae'r Uwch Swyddog Cynnwys Tenantiaid yn mynychu fel sylwedydd ac mae'n sicrhau bod y Grŵp yn cael rhestr o'r gweithgareddau a'r cyfarfodydd sydd ar ddod er mwyn i'r aelodau eu hystyried. Nid yw'r Uwch Swyddog Cynnwys Tenantiaid yn mynd ag unrhyw faterion yn ôl o'r Grŵp i'r Gymdeithas oni bai ei fod/bod yn cael cais penodol i wneud hynny, ac nid yw'n cymryd rhan yn nhrafodaethau a phrosesau gwneud penderfyniadau'r Grŵp nac yn dylanwadu arnynt. Mae'r Uwch Swyddog Cynnwys Tenantiaid yn parchu annibyniaeth, amrywiaeth, cyfrinachedd a galluoedd y Grŵp.

## 9. Sut y mae'r Grŵp yn rheoli ei arian?

Pan gafodd y Grŵp ei greu ym mis Ionawr 2010, cytunodd ar gytundeb ariannu â'r Gymdeithas, a oedd yn golygu swm o £10,000 y flwyddyn ond nad oedd wedi'i gyfyngu i hynny. Cytunwyd y byddai gan y Grŵp ei gyfrif banc ei hun, a fyddai'n cael ei reoli gan y Grŵp, er mwyn iddo gadw cyfrif cywir am ei wariant. Cytunwyd hefyd y byddai'n rhoi cyfrifon y Grŵp i'r Gymdeithas eu harchwilio ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Creodd y Grŵp ei Ffurflen Hawlio Costau ei hun sy'n cyd-fynd â chanllawiau Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi ar gyfer lwfansau teithio a chynhaliaeth. Diben y cytundeb ariannol oedd ad-dalu

treuliau parod yr aelodau pan fyddent yn cyflawni gweithgareddau ar ran y Grŵp a Barcud, talu am gynadleddau, a thalu costau gweithredol y Grŵp. Rhaid i Drysorydd y Grŵp sicrhau bod gan y Grŵp ddigon o arian yn ei gyfrifon i gyflawni ei weithgareddau, ac mae'n gofyn am hyd at £2,000 gan y Cyfarwyddwr Tai a Chefnogaeth fel sy'n ofynnol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r arian yn dod i law drwy drosglwyddiad BACS oddi wrth y Gymdeithas i gyfrif banc y Grŵp.

Mae'r Trysorydd yn rhoi adroddiad ariannol i aelodau'r Grŵp yng nghyfarfodydd misol y Grŵp, ac yn rhoi adroddiadau i Dîm Arwain Barcud yng nghyfarfod strategol Panel Cyswllt y Tenantiaid, a gynhelir bob yn ail fis. Mae *Cylch Gwaith* y Grŵp yn cynnwys y meini prawf angenrheidiol ar gyfer llofnodwyr ac ar gyfer hawlio costau.

Yn rhan o'r cytundeb ariannu cydnabuwyd, pan fydd yr aelodau'n mynychu digwyddiad dros nos, bod y rhan fwyaf o gyfleoedd rhwydweithio'n digwydd gyda'r nos. O ganlyniad, gall yr aelodau hawlio £20 ychwanegol y nos am rwydweithio ac am hyrwyddo'r Grŵp a Barcud. Caiff arian y Grŵp ei ddarparu o gyllideb Barcud ar gyfer Cynnwys Tenantiaid.

## 10. Sut y mae'r Grŵp yn rheoli trefniadau recriwtio, disgyblu a diswyddo?

Mae'r Grŵp yn cynnal tri digwyddiad cyhoeddus bob blwyddyn ar gyfer cymuned ehangach tenantiaid Barcud. Y ddau ddigwyddiad cyntaf yw Fforymau Cyswllt y Tenantiaid Barcud, a'r trydydd yw Cynhadledd i Denantiaid Barcud. Mae Cadeirydd y Grŵp yn darparu cyfraniadau ar gyfer llythyrau newyddion Barcud ac *Adroddiad Blynyddol* Grŵp Barcud. Mae'r cyfraniadau hynny'n cynnwys gwybodaeth am weithgareddau'r Grŵp Monitro. Caiff gwybodaeth am y Grŵp ei chynnwys hefyd yn y pecyn tenantiaeth i denantiaid newydd, ac mae ar gael ar wefan Barcud. Ym mis Gorffennaf 2023, dechreuodd y Grŵp gynnal cyfarfodydd ar-lein anffurfiol bob chwarter ar gyfer tenantiaid Barcud er mwyn clywed barn tenantiaid yn ehangach, rhoi sylw pellach i waith y Grŵp a chwilio am aelodau newydd. Cafodd yr angen am y cyfle ychwanegol hwn i ymgysylltu â thenantiaid ei nodi a'i ddiwallu gan aelodau'r Grŵp.

Pan fydd rhywun yn cysylltu â Barcud ac yn mynegi diddordeb yn y Grŵp, bydd manylion y tenant yn cael eu rhoi i Gadeirydd y Grŵp, a fydd yn ymgysylltu ymhellach â'r tenant yn uniongyrchol. Caiff y tenant wahoddiad i arsylwi un o gyfarfodydd misol y Grŵp. Pan fydd y tenant wedi mynychu un neu fwy o'r cyfarfodydd misol, bydd yn cael cyfle i ymuno â'r Grŵp. Nid oes gan y Grŵp broses recriwtio ffurfiol ac nid yw'n nodi gofynion penodol o ran sgiliau, oherwydd byddai hynny'n mynd yn groes i *Gylch Gwaith* y Grŵp, sy'n datgan fel a ganlyn: "Mae'r Grŵp Monitro o'r farn bod yn rhaid iddo weithio tuag at gyflawni'r nodau a'r amcanion a amlinellwyd yn Strategaeth a Chynllun Gweithredu Barcud ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid. Mae'r Grŵp Monitro wedi ymrwymo i wrthwynebu pob math o wahaniaethu, a bydd yn mynd ati'n weithredol i annog holl aelodau'r gymuned i gymryd rhan yn ei weithgareddau."

Fel y nodir yn nogfennau llywodraethu'r Grŵp, rhaid i bob aelod lynu wrth *God Ymarfer* a *Chytundeb Cyfrinachedd* y Grŵp. Mae swyddogion y Grŵp yn rheoli unrhyw achosion o weithredu'n groes i'r dogfennau hyn, yn unol â *Chylch Gwaith* y Grŵp. Ni all ac nid yw Barcud yn ymwneud â'r broses hon, ac ni all newid penderfyniad y Grŵp. Fodd bynnag, gall Barcud fynegi pryderon am ymddygiad aelod wrth swyddogion y Grŵp, os yw'r sefydliad o'r farn bod camymddwyn difrifol yn amlwg mewn cyfarfod â staff a/neu denantiaid neu mewn digwyddiad cyhoeddus.

## 11. Beth yw gweithgareddau craidd y Grŵp?

Mae *Cylch Gwaith* y Grŵp yn rhoi cyfrifoldeb ar y Grŵp i geisio cynnwys tenantiaid yn rhagweithiol yng ngweithrediadau Barcud. Mae Barcud yn ceisio ymwneud â'r Grŵp yn awtomatig mewn perthynas â gweithrediadau newydd a phresennol. Mae'r rhestr isod yn esblygu'n barhaus.

- Monitro gwasanaethau Barcud yn barhaus.
- Cynrychioli buddiannau tenantiaid Barcud yn barhaus.
- Rhoi gwybod i Barcud am unrhyw risg bosibl i'r Gymdeithas, sy'n codi o'i gweithrediadau neu o ffactorau allanol.
- Monitro enw da cyhoeddus Barcud yn barhaus.

**Mae swyddogion y Grŵp yn mynychu:**

- Digwyddiadau cynllunio busnes Barcud.
- Cyfarfod hunanwerthuso Barcud sy'n ymwneud â'r *Safonau Rheoleiddio*.
- Adolygiadau Barcud o'i *Amcanion Strategol*.
- Cyfarfodydd strategol Panel Cyswllt y Tenantiaid gyda Thîm Arwain Barcud.
- Cyfarfodydd gweithredol Panel Cyswllt y Tenantiaid gyda Thîm Rheolwyr Gweithredol Barcud.

**Mae'r Grŵp:**

- Yn cael ei gynnwys yn y cyfarfod a gynhelir yn flynyddol i adolygu'r gwaith o bennu rhenti ac adolygu'r *Polisi Pennu Rhenti*.
- Yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad blynyddol o *Strategaeth a Chynllun Gweithredu Barcud ar gyfer Cynnwys Tenantiaid*.
- Yn cael ei gynnwys yn Fforwm Iechyd a Diogelwch a Lles Barcud.
- Yn cael ei gynnwys yng Ngrŵp Gorchwyl Lleithder, Llwydni ac Anwedd Barcud.
- Yn cael ei gynnwys yn y gwaith o ddatblygu strategaethau, polisïau a gwasanaethau newydd.
- Yn cael ei gynnwys mewn adolygiadau o fanylebau a safonau Barcud.
- Yn cael ei gynnwys mewn adolygiadau cyflwyno tendrau.
- Yn cael ei gynnwys yn y broses o recriwtio Cadeirydd, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Grŵp Barcud.
- Yn cael ei gynnwys mewn digwyddiadau hyfforddi ar gyfer aelodau o staff ynghylch gweithrediadau a dulliau gweithredu newydd.
- Yn cael ei gynnwys mewn adolygiadau o lythyr newyddion Barcud.
- Yn cael ei gynnwys yn y gwaith o greu Arolwg STAR Barcud ac o fonitro'r cynllun gweithredu cysylltiedig. Mae Arolwg STAR Barcud yn cynnwys cwestiynau sy'n benodol i Barcud yn ogystal â'r cwestiynau a bennir gan Lywodraeth Cymru. Mae pob un o denantiaid Barcud yn cael copi wedi'i argraffu o'r arolwg.
- Yn adolygu'r holl bolisïau er mwyn sicrhau eu bod yn ystyriol o'r tenantiaid ac y byddant yn caniatáu disgresiwn priodol ar gyfer tenantiaid sy'n agored i niwed.
- Yn cynnal archwiliadau o drefniadau rheoli ystadau er mwyn sicrhau bod safonau gwasanaeth y Grŵp yn cael eu bodloni.
- Yn cynnal archwiliadau o eiddo gwag a ddewisir ar hap, er mwyn sicrhau bod safonau'r Grŵp ar gyfer ailosod eiddo'n cael eu bodloni cyn bod eiddo'n cael ei ddyrannu.

- Yn cynnal arolygon dros y ffôn er mwyn gwirio'n annibynnol ddata Barcud ynghylch bodlonrwydd tenantiaid.
- Yn monitro gwefan Barcud a'i blatfformau ar gyfryngau cymdeithasol yn barhaus, ac yn mynychu cyfarfodydd i'w hadolygu.
- Yn pennu'r agenda ar gyfer Fforymau Cyswllt y Tenantiaid Barcud, ac yn cynnal y Fforymau hynny.
- Yn pennu'r agenda a'r thema ar gyfer Cynhadledd i Denantiaid Barcud, sy'n ddigwyddiad blynyddol, ac yn cynnal y Gynhadledd.
- Yn cynnal cyfarfodydd ar-lein anffurfiol bob chwarter ar gyfer tenantiaid Barcud.
- Yn cymryd rhan mewn ymgyngoriadau lleol a chenedlaethol er mwyn cynrychioli barn y tenantiaid. Ni yw'r unig grŵp tenantiaid yng Nghymru sy'n cymryd rhan yn rheolaidd yn ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru. Nid yw Barcud yn dylanwadu ar ymatebion y Grŵp ac nid yw'n ymwneud â nhw, oherwydd mae'n cydnabod pwysigrwydd barn y tenantiaid.
- Yn mynychu digwyddiadau hyfforddi a rhwydweithio TPAS Cymru.
- Yn mynychu digwyddiadau eraill Barcud i denantiaid, er mwyn cwrdd â thenantiaid a hyrwyddo'r Grŵp. Mae gan y Grŵp ei stondin ei hun ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i'r Grŵp.
- Yn hyrwyddo model gweithredol y Grŵp i grwpiau tenantiaid sydd â diddordeb ynddo ac i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ledled Cymru.
- Yn hyrwyddo arferion da Barcud sydd wedi'u llunio ar y cyd.

Mae swyddogion y Grŵp hefyd yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Grŵp.

## 12. Pa gyfyngiadau sydd ar y Grŵp?

Nid yw'r Grŵp yn grŵp eiriolaeth ar gyfer tenantiaid. Nid yw'n ymwneud â phryderon tenant unigol. Rôl y Grŵp yw cynrychioli buddiannau tenantiaid yn ehangach. Mae gan Barcud brosesau sydd wedi'u llunio mewn partneriaeth â'r Grŵp ar gyfer mynd i'r afael â phryderon tenant. At hynny, mae'n ofynnol i aelodau'r Grŵp gysylltu'n uniongyrchol â Barcud i drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â'u tenantiaeth. Caiff unrhyw denantiaid sy'n cysylltu â'r Grŵp ynglŷn â phryderon personol wybod am weithdrefnau Barcud, a chânt wybod y dylent gysylltu â Barcud yn uniongyrchol.

Nid yw'r Grŵp yn ymwneud ag adran Adnoddau Dynol Barcud, ac nid yw'n dylanwadu arni. Fodd bynnag, gall y Grŵp gymryd rhan yn y broses o recriwtio Cadeirydd, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Grŵp Barcud, ac mae wedi cymryd rhan yn y broses honno.

## 13. Beth yw Fforymau Cyswllt y Tenantiaid Barcud a Chynhadledd i Denantiaid Barcud?

Bob blwyddyn, bydd Barcud yn trefnu dau gyfarfod cyhoeddus a gaiff eu galw'n Fforymau Cyswllt y Tenantiaid, a gynhelir mewn lleoliadau cymunedol hollol hygyrch. Caiff y cyfarfodydd eu cynnal ym mis Mawrth a mis Mehefin, yn Aberystwyth a'r Drenewydd am yn ail. Mae'r digwyddiadau hyn yn rhoi cyfle i denantiaid gwrdd â'r Grŵp Monitro, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr a chael y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Grŵp Monitro a Barcud.

Mae staff o'r tîm tai, y tîm cynnal a chadw a 'Cynnal' (tîm cynnal tenantiaethau Barcud) yn bresennol i gynorthwyo'r tenantiaid gydag unrhyw faterion sy'n ymwneud â'u tenantiaeth. Y Grŵp

Monitro sy'n cadeirio'r digwyddiad ac sy'n creu'r agenda o gyflwynwyr. Gall y cyflwynwyr hynny gynnwys pobl o sefydliadau eraill a allai fod o fudd ac o gymorth i'r tenantiaid. Caiff y digwyddiadau eu hyrwyddo yn llythyr newyddion Barcud, ar dudalen Barcud ar Facebook, ar daflenni mewn ymgyrchoedd postio ac ar bosteri mewn ardaloedd cyffredin.

Caiff y tenantiaid gludiant am ddim, help gyda chostau gofal plant, a chinio bys a bawd. Mae'r digwyddiadau hyn yn rhai hamddenol, cyfeillgar ac addysgiadol ac maent yn rhoi cyfle i'r tenantiaid gwrdd ag aelodau o'r Tîm Arwain a dod i'w hadnabod mewn lleoliad anffurfiol. Mae'r agenda hefyd yn cynnwys sesiwn holi ac ateb lle gall y tenantiaid ofyn eu cwestiynau i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr. Mae hon yn sesiwn boblogaidd ymhlith y tenantiaid. Mae'r digwyddiadau hyn hefyd yn galluogi'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr i ddod i ddeall beth sy'n digwydd ar lawr gwlad.

Caiff y Gynhadledd i Denantiaid ei chynnal ym mis Medi ar fore Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Grŵp Barcud, sy'n digwydd ar ôl cinio. Mae'r gynhadledd yn debyg i Fforymau Cyswllt y Tenantiaid ond bod ganddi thema benodol a gaiff ei phennu gan y Grŵp Monitro. At hynny, bydd Cadeirydd y Grŵp Monitro yn cyflwyno *Adroddiad Blynyddol* y Grŵp, ac yna'n gofyn am ganiatâd y tenantiaid i'r Grŵp Monitro eu cynrychioli yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Dim ond y tenantiaid sy'n cael cymryd rhan yn y broses bleidleisio.

Mae'n bwysig nodi bod cynnal y gynhadledd cyn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Grŵp Barcud yn ei gwneud yn bosibl i aelodau o Fwrdd Grŵp Barcud fynychu'r gynhadledd fel sylwedyddion, ac yn ei gwneud yn haws i denantiaid Barcud sy'n gyfranddalwyr fynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Caiff holl denantiaid Barcud eu hannog i ddod yn gyfranddalwyr, gan gynnwys aelodau'r Grŵp Monitro.

## 14. Beth yw cyfarfodydd strategol a gweithredol Panel Cyswllt y Tenantiaid?

Cyfarfodydd Panel Cyswllt y Tenantiaid yw'r prif blatfform sy'n galluogi'r Grŵp Monitro i ymgysylltu â Thîm Arwain a Thîm Rheolwyr Gweithredol Barcud. Mae yna ddau fath o gyfarfod Panel Cyswllt y Tenantiaid – rhai strategol a rhai gweithredol. Caiff y cyfarfodydd hyn eu cynnal bob mis – y rhai strategol a'r rhai gweithredol am yn ail â'i gilydd. Caiff cofnodion o'r cyfarfodydd eu rhannu â Bwrdd Grŵp Barcud.

Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi cyfle i'r Grŵp Monitro gyflwyno ei arsylwadau a'i argymhellion i'r tîm perthnasol, ac yn rhoi cyfle i'r timau hynny gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp Monitro. Yna, bydd swyddogion y Grŵp Monitro yn rhannu'r wybodaeth honno ag aelodau'r Grŵp yng nghyfarfodydd misol y Grŵp.

Mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr, y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cwsmeriaid a Phartneriaethau, yr Uwch Swyddog Llywodraethu, a'r Uwch Swyddog Cynnwys Tenantiaid yn bresennol yng nghyfarfod strategol Panel Cyswllt y Tenantiaid. Mae'r eitemau safonol sydd ar yr agenda'n cynnwys: diweddariadau ynghylch Tai a Chefnogaeth (gan gynnwys y Gymdeithas Gofal), diweddariadau ynghylch Asedau a Datblygu, diweddariadau ynghylch yr is-gwmnïau (EOM, Gofal a Thrwsio ym Mhowys, a Medra), diweddariadau ynghylch Llywodraethu, a diweddariadau ynghylch Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Chynnwys Tenantiaid. Caiff materion strategol eraill eu cynnwys fel y byddant yn codi ac fel y bydd angen cynnwys y Grŵp Monitro ynddynt.

Mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cwsmeriaid a Phartneriaethau, Penaethiaid Atgyweirio Ymatebol a Chynnal a Chadw Eiddo Gwag (y Dwyrain a'r Gorllewin), y Pennaeth Cydymffurfio a Gwaith Cynnal a Chadw Arfaethedig, Penaethiaid Gwasanaethau Tai a Chefnogaeth (y Dwyrain a'r Gorllewin), yr Uwch Swyddog Datblygiadau a'r Uwch Swyddog Cynnwys Tenantiaid yn bresennol yng nghyfarfod gweithredol Panel Cyswllt y Tenantiaid. Mae'r eitemau safonol sydd ar yr agenda'n cynnwys: diweddariadau ynghylch Gwaith Arfaethedig, diweddariadau ynghylch Tai a Chefnogaeth, diweddariadau ynghylch Cynnal a Chadw, diweddariadau ynghylch Datblygiadau Newydd, diweddariadau ynghylch Gwasanaethau Cwsmeriaid a diweddariadau ynghylch Cynnwys Tenantiaid.

Yn y ddau fath o gyfarfod, bydd swyddogion y Grŵp Monitro yn rhoi diweddariad ynghylch gweithgareddau, arsylwadau ac argymhellion y Grŵp ac ynghylch ei waith i fonitro cynnydd yng nghyswllt camau gweithredu a nodwyd yn flaenorol, a bydd y Grŵp yn cymryd rhan yn llawn mewn trafodaethau ac yn y broses o wneud penderfyniadau. Er bod strwythur ffurfiol yn perthyn i'r cyfarfodydd hyn, mae pawb sy'n bresennol yn ymddwyn yn anffurfiol ynddynt. Mae hynny'n cryfhau cydberthnasau gwaith ac yn atgyfnerthu diwylliant Barcud o ran y modd y mae'n trin ei denantiaid.

## 15. Beth yw dyletswyddau swyddogion etholedig y Grŵp?

**Cadeirydd**

- Sicrhau bod pob aelod yn gallu cymryd rhan yn llawn yn nhrafodaethau a gweithgareddau'r Grŵp.
- Annog a hybu aelodaeth amrywiol.
- Grymuso a chynorthwyo aelodau newydd a phresennol.
- Sicrhau bod y Grŵp yn gydlynus, a sicrhau ei fod yn parhau felly.
- Cynorthwyo i recriwtio aelodau newydd drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â thenantiaid sydd â diddordeb mewn bod yn aelodau o'r Grŵp.
- Cofio mai aelodau'r Grŵp ac nid y Cadeirydd sy'n cyfarwyddo unrhyw benderfyniadau a chamau gweithredu. Rhaid mai'r aelodau sy'n arwain y Grŵp bob amser, a rhaid i'r Grŵp ddilyn y broses ddemocrataidd wrth ystyried cynnig neu gam gweithredu.
- Pennu'r agenda a chadeirio cyfarfodydd misol y Grŵp.
- Mynychu cyfarfodydd briffio gyda swyddogion y Grŵp, e.e. cyn un o gyfarfodydd Panel Cyswllt y Tenantiaid, er mwyn trafod y wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer y cyfarfod dan sylw.
- Mynd i'r afael ag unrhyw achosion o weithredu'n groes i *God Ymddygiad* a *Chytundeb Cyfrinachedd* y Grŵp, yn unol â *Chylch Gwaith* y Grŵp.
- Bod yn ymwybodol o rwymedigaethau'r Grŵp fel y maent wedi'u diffinio yn *Strategaeth a Chynllun Gweithredu Barcud ar gyfer Cynnwys Tenantiaid*, a sicrhau bod y Grŵp a Barcud yn cyflawni'r rhwymedigaethau hynny.
- Sicrhau nad oes unrhyw gamau gweithredu'n cael eu cymryd a allai wanhau statws annibynnol y Grŵp.
- Gwneud 'Penderfyniad Gweithredol' ar ran y Grŵp os oes angen.
- Cynnal tanysgrifiad blynyddol y Grŵp i'r GDPR a gweithredu'n unol â'r Rheoliad.
- Cadeirio digwyddiadau cyhoeddus i denantiaid, megis Cynhadledd i Denantiaid Barcud a Fforwm Cyswllt y Tenantiaid Barcud.

- Llunio *Adroddiad Blynyddol* y Grŵp, cyn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Chynhadledd i Denantiaid Barcud.
- Darparu erthyglau ynghylch gweithgareddau diweddar y Grŵp ar gyfer llythyr newyddion Barcud, yr e-Fwletin i staff a'r *Adroddiad Blynyddol*.
- Mynychu digwyddiadau ymgynghori lle byddai ein tenantiaid yn elwa o gael cynrychiolaeth a chymorth.
- Datblygu a chynnal perthynas waith gadarnhaol â staff Barcud.
- Cyflwyno pryderon, argymhellion, arsylwadau a safbwyntiau'r Grŵp yng nghyfarfodydd strategol a gweithredol Panel Cyswllt y Tenantiaid, ac adrodd yn ôl i'r Grŵp.
- Mynychu digwyddiadau cynllunio busnes Barcud, adolygiadau o *Amcanion Strategol* a chyfarfodydd hunanasesu sy'n ymwneud â'r *Safonau Rheoleiddio*, er mwyn cyflwyno safbwyntiau'r tenantiaid ac adrodd yn ôl i'r Grŵp.
- Cytuno â Barcud ar ddatganiadau i'r wasg os oes angen.
- Hyrwyddo'r Grŵp a Barcud yn lleol ac yn genedlaethol.

**Is-gadeirydd**

- Mynychu pob cyfarfod gyda'r Cadeirydd.
- Mynychu pob cyfarfod gyda swyddogion y Grŵp.
- Cynorthwyo, cynghori a herio'r Cadeirydd os oes angen.
- Cyflawni gweithgareddau'r Cadeirydd os nad yw'r Cadeirydd ar gael.
- Sicrhau bod ganddo/ganddi'r holl wybodaeth a ddarperir i'r Cadeirydd, er mwyn cyflawni dyletswyddau'r Cadeirydd os oes angen.

**Ysgrifennydd**

- Mynychu pob cyfarfod gyda swyddogion y Grŵp.
- Cynorthwyo'r Cadeirydd i bennu'r agenda ar gyfer cyfarfodydd misol y Grŵp.
- Cadw cofnodion o gyfarfodydd misol y Grŵp.
- Dosbarthu'r agenda, cofnodion ac adroddiadau i'r aelodau i gyd o leiaf wythnos cyn cyfarfodydd misol y Grŵp.
- Dosbarthu unrhyw wybodaeth ychwanegol i aelodau'r Grŵp os oes angen.
- Dosbarthu'r *Blaen-ddyddiadur* o ddigwyddiadau a dyddiadau cyn cyfarfodydd misol y Grŵp.
- Gwneud nodiadau yng nghyfarfodydd Panel Cyswllt y Tenantiaid.

**Trysorydd**

- Mynychu pob cyfarfod gyda swyddogion y Grŵp.
- Cadw cyfrifon cywir o incwm a gwariant y Grŵp.
- Rheoli cyfrif banc a llofnodwyr y Grŵp.
- Darparu adroddiad ariannol misol i'r aelodau yng nghyfarfodydd misol y Grŵp.
- Mynychu cyfarfodydd strategol Panel Cyswllt y Tenantiaid er mwyn rhoi manylion i Dîm Arwain Barcud am wariant misol y Grŵp a'i wariant yn ystod y flwyddyn hyd hynny.
- Cyflwyno cyfrifon blynyddol y Grŵp i Barcud er mwyn iddynt gael eu harchwilio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

- Sicrhau bod derbynebau ac anfonebau'n cael eu cyflwyno i Barcud gyda chyfrifon blynyddol y Grŵp.
- Rhoi *Adroddiad Ariannol Blynyddol* i'r Grŵp yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp.
- Gwneud cais am ragor o arian gan Barcud pan fernir bod angen, a dim ond os yw'r Grŵp wedi rhoi caniatâd i hynny ddigwydd.
- Sicrhau bod yr aelodau'n cael ad-daliad am unrhyw dreuliau parod rhesymol a chymeradwy.
- Sicrhau bod ffurflenni hawlio'n cael eu cwblhau'n gywir a'u bod yn cael eu hategu gan dderbynebau ac anfonebau os oes angen.